**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14

Hydref 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

Cyllideb Ddrafft Comisiwn
y Cynulliad 2013-14

Hydref 2012

**Y Pwyllgor Cyllid**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried y defnydd o adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwario arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Ieuan Wyn Jones**
Plaid Cymru
Ynys Môn

Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14**

Cymerodd y Pwyllgor Cyllid dystiolaeth am Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar 3 Hydref 2012.

Ar ôl darllen y cynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, a chlywed y tystiolaeth, rydym yn dal yn anghyfforddus ynghylch y cynnydd yn y gyllideb arfaethedig (5.3%) a hynny oherwydd bod hwn yn sylweddol uwch na'r cynnydd a welir mewn meysydd eraill yn y sector cyhoeddus.

Fodd bynnag, rydym yn deall mai'r ail mewn strategaeth tair blynedd yw Cyllideb y Comisiwn eleni, i sicrhau y gall y sefydliad ymdopi â'i gyfrifoldebau deddfwriaethol newydd, a datblygu rôl ganolog ym mywyd cyhoeddus Cymru.

Rydym hefyd yn cydnabod bod y Pwyllgor Cyllid wedi gofyn 12 mis yn ôl i'r Comisiwn gyflwyno'r cynnydd arfaethedig yn ei gyllideb dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Gan i'r Comisiwn gydymffurfio â'n cais, mae'r cynnydd yn y gyllideb eleni yn fwy sylweddol.

Felly, yn gyfnewid am y lwfans hael hwn, rydym yn rhybuddio'r Comisiwn ein bod yn disgwyl gweld canlyniadau. Byddwn yn monitro'n ofalus iawn y modd y bydd y Comisiwn yn gwireddu ei weledigaeth o fod yn sefydliad i'w efelychu, o roi cymorth o'r radd flaenaf i'r ddemocratiaeth y mae'n ei gwasanaethu a'r staff sy'n caniatáu iddo wneud hynny.
**Rydym yn argymell bod y Comisiwn yn cyhoeddi dangosyddion perfformiad bob blwyddyn i ganiatáu inni wneud hynny.**

**Rydym hefyd yn cofnodi y byddwn yn disgwyl, erbyn diwedd y rhaglen fuddsoddi tair blynedd hon, na fydd cyllidebau'r Comisiwn ar gyfer 2015-16 a 2016-17 yn cynyddu dim mwy na'r newid cyfatebol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.**

**Rydym hefyd yn argymell bod y Comisiwn yn paratoi adroddiad manylach yn y dyfodol** – tebycach i adroddiad 2012-13 nag i adroddiad eleni. Er y bu modd inni ofyn am wybodaeth ychwanegol, a'i chael, teimlwn y dylai rhywfaint ohoni fod wedi'i chynnwys i sicrhau tryloywder.

Roedd llawer i'w edmygu yn y gyllideb ddrafft; mae'r hyn a wnaed i sicrhau arbedion ac i sicrhau bod y Cynulliad yn gosod esiampl fel cyflogwr yn enghreifftiau amlwg. Mae'r Comisiwn hefyd i'w ganmol am barhau i ymgymryd â'i ddyletswyddau tuag ar gynaliadwyedd, gan gydbwyso'r dyletswyddau hyn â'r angen i reoli costau.

Yn ddiweddarach eleni, bydd y Comisiwn yn wynebu penderfyniad mawr ynghylch gwasanaethau TGCh yn y Cynulliad. Bydd yn buddsoddi'n sylweddol yn y gwasanaethau hyn ac, yn ein sesiynau tystiolaeth, roeddem yn falch o weld yr ymrwymiad amlwg i wneud y penderfyniad iawn.

Mae rhagor o fanylion am ein casgliadau i'w gweld yn Atodiad 1 (ynghlwm). Mae Atodiad 2 (hefyd ynghlwm) yn rhoi gwybodaeth gefndir i'r rhai nad ydynt yn arbenigo yn y maes, am rôl y pwyllgor yn y broses o graffu ar gyllideb ddrafft y Comisiwn.

Gobeithio y bydd y Comisiwn yn gallu rhoi'n hargymhellion ar waith ac edrychwn ymlaen at weld y gyllideb hon yn gwireddu'r weledigaeth gyffrous sydd gennych ar gyfer y Cynulliad fel calon bywyd cyhoeddus Cymru.

**Jocelyn Davies**



**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

**Atodiad 1**

## Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14

Mae'r adroddiad byr hwn yn crynhoi'n casgliadau. Mae'n ymdrin â phedwar prif faes:

- Cyllideb Comisiwn y Cynulliad yn gyffredinol
- Blaenoriaethau strategol
- Buddsoddi mewn TGCh
- Cydraddoldeb a Chynaliadwyedd

## 1. Cyllideb Comisiwn y Cynulliad yn gyffredinol

### Y gyllideb yn gyffredinol

1. Y llynedd, argymhellodd y Pwyllgor Cyllid y dylid cyflwyno'r cynnydd arfaethedig yng nghyllideb ddrafft y Comisiwn dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Roeddem yn falch o weld bod yr argymhelliad hwn wedi'i fabwysiadu yng nghyllideb derfynol y Comisiwn ar gyfer 2012-13.

2. O ganlyniad mae'r cynnydd o 4.3% a ragwelwyd ar gyfer eleni wedi troi'n gynnydd o 5.3% yn y gyllideb eleni i gynnal y cynllun tair blynedd. Yn yr un modd, mae'r cynnydd o 0.4% ar gyfer 2014-15 yn y cynllun tair blynedd gwreiddiol wedi codi i 2.3% yn y fersiwn ddiweddaraf.

3. Holodd y Pwyllgor am yr ymdrechion a wnaed i arbed arian, ac a allai'r Comisiwn gyfiawnhau cynnydd a oedd yn uwch na chanran y cynnydd mewn unrhyw adran unigol arall yng nghyllideb Llywodraeth Cymru, er enghraifft.

4. Dywedodd Angela Burns, Comisiynydd y Cynulliad dros y gyllideb a llywodraethu: "We are a very lean organisation. You will be aware that, in the Third Assembly, the drive was very much about getting value for money and substantial cuts were made, which were very good because they put us into a good shape. However, if you like, we are a skinny child and we now have to put on a little bit of fat—and it is not wasteful fat, but the kind of fat that will build muscle—to enable us to deliver the services that we need to deliver."[1]

[1] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para 21

5. Sylwn fod y Comisiwn wedi nodi y bydd ei wariant yn parhau i gyfateb i 0.3% o'r £15 biliwn ym Mloc Cymru.

ARGYMHELLIAD: Rydym yn disgwyl na fydd cyllidebau'r Comisiwn ar gyfer 2015-16 a 2016-17, erbyn diwedd y rhaglen fuddsoddi tair blynedd hon, yn cynyddu dim mwy na'r newid cyfatebol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

6. Roedd yr Aelodau yn pryderu nad oedd y gyllideb ddrafft eleni'n ddigon manwl, o'i chymharu â chyllidebau blaenorol. Mae'r ddogfen eleni'n cynnwys llai o dablau, sy'n ei gwneud yn anoddach i'r Pwyllgor weld lle mae'r Comisiwn yn bwriadu buddsoddi ac mae hefyd yn anoddach craffu ar y penderfyniadau dros gynigion y gyllideb ddrafft.

7. Er inmi fedru gwneud cais am wybodaeth ychwanegol, a'i chael, teimlwn y byddai wedi bod yn well pe bai'r wybodaeth honno wedi'i chynnwys ym mhapur y Comisiwn.

ARGYMHELLIAD: Rydym yn argymell bod y Comisiwn, yn y dyfodol, yn cynnwys rhagor o fanylion - am arbedion a buddsoddiadau – fel a gafwyd yng nghyllideb ddrafft 2012-13.

**Buddsoddiadau ac Arbedion**

8. Mae cynlluniau tair blynedd y Comisiwn yn cynnwys arbedion o £2m dros y tair blynedd. Gofynnodd yr Aelodau am ddadansoddiad o'r £0.5m y mae'r Comisiwn yn bwriadu ei arbed yn ystod 2013-14.

9. Cafodd y Pwyllgor nodyn ysgrifenedig yn rhoi'r manylion hyn.

10. "In 2011-12 we achieved savings of £0.65m in staff costs and a further £0.38m from operational activities.

"The Commission's budget for the current year, 2012-13, included estimates of £0.4m of recurring savings and £0.5m of in-year savings, for example, through vacancy management. We are on track to achieve these.

"The specific procurement and contract negotiations that I mentioned to the Committee delivered the following savings:

- catering contract £10k per annum;
- payroll service contract £5k per annum;
- maintenance contract of £30k per annum;
- window cleaning contract £5k per annum;
- change to café and shop operation £30k per annum.

"The Draft Budget for 2013-14 commits to £0.5m of savings to be achieved during the course of the year.

“We have engaged our internal auditors, KPMG, to help us further progress our VfM [Value for Money] Programme implementation. It is not just about achieving cash savings, it is also about improving service provision through making more effective use of available resources. Areas that we have already tackled include, for example, simplification of administrative processes under the new facilities contract and improved handling of event bookings by our Front of House team.”[2]

11. Cyfeiriwyd at y gwaith o wella TGCh yn y Siambr, a chreu cronfa mynediad i ganiatáu i'r Aelodau helpu etholwyr gydag anghenion penodol, fel enghreifftiau pendant o'r camau a gymerwyd i wella gwasanaethau drwy fuddsoddiad ychwanegol.

12. Roeddem yn falch o glywed fod y buddsoddiad o £80,000 yn siop a chaffi'r Senedd wedi arwain at ostyngiad yn y gost eu rhedeg, a chynnydd yn incwm y caffi a'r siop. Mae hyn yn golygu y caiff y buddsoddiad ei adennill yn gyflym.

### Ariannu'r Cynulliad yn y dyfodol

13. Roedd yr Aelodau yn pryderu ynghylch ariannu'r Cynulliad yn y dyfodol, yn enwedig os bydd yr adolygiad nesaf o wariant y DU yn arwain at doriadau ychwanegol i floc Cymru, fel y mae'r rhan fwyaf yn proffwydo.

14. Dywedodd Angela Burns: “We hope that by putting in good systems now—and it is not just the ICT systems; it is all of our back office systems and processes—we can make a lot of savings.

15. “So, it is about trying to make ourselves as lean and fit as we can, so that when we go forward, we will be able to do the same things, and provide the same levels of service, without having to come back and say ‘We need a massive increase in our budget’.”[3]

### Gwerth am arian

16. Holodd y Pwyllgor a oedd y Comisiwn yn cael gwerth am arian yn y modd roedd yn defnyddio'r Pierhead.

17. Dywedodd Angela Burns: “I think that the situation regarding the Pierhead building is in its early days. It is slowly growing in stature. The fact that the Welsh Governance Centre has moved in there is absolutely excellent.

---

[2] Nodyn at y pwyllgor (Saesneg yn unig) http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s10890/Letter%20to%20Action%20Point%20-%20Chair%20from%20Assembly%20Commissioner.pdf

[3] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para xx

18. “It is being used more often… It is slowly building as a centre, which is what we want it to do. It is part of our objective about engaging the people of Wales, promoting Wales, and trying to become that sort of locus of activity, with the Pierhead and National Assembly buildings here. This is where we want our Olympians, Paralympians, rugby teams, and all our honoured people to come to celebrate. We want to provide that centre. So, it is getting there, but it is a long process.”[4]

[4] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para 155

20. Mae'r Comisiwn wedi datgan y bydd y Pedwerydd Cynulliad, yn strategol, yn canolbwyntio ar:

- Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;
- Ymgysylltu â phobl Cymru;
- Hyrwyddo Cymru;
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth."[5]

21. Roedd y Pwyllgor am gymharu'r Cynulliad â llywodraeth leol lle caiff cyllid ei fonitro'n ofalus drwy ystyried amrywiaeth o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol. Holodd yr Aelodau sut y gellid mesur llwyddiant, a pha ddangosyddion perfformiad y gellid eu defnyddio i asesu.

22. Dywedodd Angela Burns: “In terms of how we would measure success, when I came here last year I made the comment that one of our clear ambitions was to make sure that, when we all go to the streets in 2016, we do not have people saying to us, ‘What is the National Assembly for Wales? What does it do? Why are you different from Westminster? What is the point of an Assembly Member as opposed to an MP?’ For us, success is about us being the fulcrum of Welsh life, about really developing the Welsh nation with a centre and heart that—while not driving it, because it is the people of Wales that drive the nation—can be a locus for people to focus on.

“A key success is Members being satisfied, and we know from our Members survey that we get enormous plaudits in some areas, and we get an absolute thumbs down in other areas. That has to be very clear: for us, standing still is not an option. We want to be an exemplar organisation.”[6]

ARGYMHELLIAD: Dylai'r Comisiwn gyhoeddi set gryno o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol i'r Aelodau eu defnyddio i fesur i ba raddau mae'r gyllideb yn cyfrannu at nodau ac amcanion corfforaethol.

### Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

23. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y Comisiwn yn fodlon â'r newidiadau yn strwythur y pwyllgor. Yn y Trydydd Cynulliad roedd pwyllgorau gwahanol ar gyfer craffu ar bolisïau a deddfwriaeth. Yn y Pedwerydd Cynulliad, mae'r rhain wedi'u cyfuno'n bum pwyllgor pwnc cyffredinol sy'n craffu ar y ddwy agwedd, ynghyd â'r pwyllgorau sefydlog.

---

[5] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14, t3.
[6] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para 42

24. Datgelodd Angela Burns fod adolygiad o fusnes y pwyllgorau wedi dechrau. Meddai: “The short answer is, no, we are not content. We have a new committee structure; it is a different scenario to how it was in the Third Assembly. That has necessitated a change in working practices. The amount of work that Assembly Members have to get through on every committee is utterly phenomenal.

“There are issues about whether or not we are delivering, for example, briefings on time, papers on time and Welsh translations on time. There is an enormous amount of issues. There is no doubt that the teams are up against it and it is a consequence of how we have chosen to work our committee structure. Given that we know this and that we have been listening to Members and the issues that they raise, our director of Assembly business is now conducting a full-scale review of how committees work, the support services that we need to provide, whether or not we are meeting Members’ expectations and the objectives.”[7]

### Y Bil Ieithoedd Swyddogol

25. Roedd yr Aelodau yn pryderu ynghylch y costau ychwanegol posibl a allai godi o'r newidiadau yn y Bil Ieithoedd Swyddogol, nad oeddent wedi'u hystyried yn y gyllideb ddrafft.

26. Deddfwriaeth ddrafft i egluro dyletswyddau'r Cynulliad Cenedlaethol a Chomisiwn y Cynulliad mewn perthynas â darparu gwasanaethau dwyieithog yw'r Bil Ieithoedd Swyddogol.

27. Yn ystod ein cyfarfod, daeth i'r amlwg bod £250,000 yn y gyllideb i dalu am gostau cyfieithu ychwanegol, ond bod gwelliannau wedi'u cyflwyno i'r Bil a allai fod wedi ychwanegu £600,000 o gostau ychwanegol yn ystod y flwyddyn gyntaf.

28. Cyfaddefodd Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad y byddent yn wynebu "penderfyniadau anodd"[8] pe bai'r holl welliannau'n cael eu derbyn. Fodd bynnag, ar brynhawn 3 Hydref, cafodd y Bil ei drafod yn y Cyfarfod Llawn, a'i dderbyn heb y gwelliannau drutaf.

---

[7] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para 86
[8] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para 92

## 3. Buddsoddi mewn TGCh

29. Ym mhapur y Comisiwn ac yn y dystiolaeth lafar, cyfeiriwyd droeon at fuddsoddi mewn TGCh (Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu). Yn ôl Steve O'Donoghue, hwn oedd y "brif flaenoriaeth". Dywedodd Angela Burns dyma oedd prif gŵyn Aelodau'r Cynulliad mewn arolwg nad yw wedi'i gyhoeddi eto.

30. Mae seilwaith TGCh y Cynulliad yn darparu gwybodaeth a gwasanaethau i dros 700 o ddefnyddwyr, ar ystâd y Cynulliad ym Mae Caerdydd ac mewn swyddfeydd rhanbarthol ac etholaethol ar hyd a lled Cymru. Caiff y seilwaith cymhleth hwn ei gynnal a'i gefnogi gan ATOS drwy'r cytundeb â Merlin y mae'r Cynulliad yn ei rannu â Llywodraeth Cymru. Mae modd dod â'r cytundeb i ben naill ai yn 2014 neu 2019. Bydd y Comisiwn yn penderfynu ym mis Tachwedd a yw'n dymuno ymestyn y cytundeb presennol neu ddod â'r cytundeb i ben yn 2014.

31. Mae papur y gyllideb ddrafft yn nodi: "Mae'r Senedd ar waith ers chwe blynedd yn awr ac mae llawer o'r seilwaith TGCh gwreiddiol yn cyrraedd, neu wedi cyrraedd, pwynt lle mae angen ei ddiweddaru i sicrhau bod y Cynulliad yn gallu parhau i weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae rhywfaint o'r gwaith wedi dechrau."[9]

32. Cododd yr Aelodau gwestiynau penodol yn ymwneud â'r broses o gaffael TGCh, yn ystod y cyfarfod ac wedyn. Ymdrinnir â'r cwestiynau hyn mewn nodiadau i'r Pwyllgor ac mewn cyfarfodydd unigol â'r Cyfarwyddwr TGCh.

33. Dywedodd Angela Burns: "It is not just about cost; it is about the benefits, the expectations, and the delivery. Of all the projects, we will be measuring this one like no other project has ever been measured before.

"So, we have an enormous risk and benefit analysis going on in tandem with a cost analysis. I promise you that this will be benchmarked and crawled over by absolutely everyone before we make the decision. We have already put together a project team of dedicated finance people for the purpose of project management.

"Basically, it is under way and it is our No. 1 priority as a Commission."[10]

34. Rydym yn nodi pwysigrwydd y penderfyniad arfaethedig ynghylch gwasanaethau TGCh a hanes anghyson y sector cyhoeddus o ran caffael yn y

---

[9] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14, t11.
[10] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para 145

maes hwn.  Rydym yn croesawu'r ffaith bod y Comisiwn yn ystyried y sefyllfa mor ofalus.

## 4. Cydraddoldeb a Chynaliadwyedd

### Cynaliadwyedd

35. Un thema a gododd droeon yn ystod y sesiwn dystiolaeth oedd y tyndra rhwng lleihau costau a buddsoddi mewn cynaliadwyedd. Dywedodd y Comisiynydd [11] na fydd rhai amcanion cynaliadwyedd yn fforddiadwy yn ystod cyfnod y strategaeth tair blynedd bresennol.

36. Yn y gyllideb ddrafft nodir y bu gostyngiad o 24% mewn allyriadau ynni dros y pedair blynedd diwethaf a bod y Cynulliad yn awr yn ailgylchu 95% o'i wastraff.[12]

37. Roedd yr Aelodau'n croesawu'r hyn roedd y Cynulliad wedi'i gyflawni hyd yma ym maes cynaliadwyedd a holwyd a oedd modd gwneud rhagor o gynnydd.

38. Dywedodd Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad: "I think it's fantastic that we have achieved a 24% reduction in carbon emissions over the past four years, and a 9% reduction last year alone. However, we are coming to the end of what can be achieved relatively easily. There are not many lights left to be switched to sensor control.

39. "Looking forward to the 40% target, we are facing a pretty big and difficult decision about the air cooling system in Tŷ Hywel because it is very carbon-hungry. The options are looking unaffordable. We are going to have to come back to consider that in a future budget strategy."[13]

### Cydraddoldeb

40. Roeddem yn falch o glywed am yr hyn y mae'r Cynulliad wedi'i gyflawni fel cyflogwr. Mae'r Cynulliad wedi ennill y safon aur fel Buddsoddwr mewn Pobl ac mae'n 20fed yn rhestr Stonewall o'r 100 cyflogwr gorau'r DU ar gyfer staff sy'n lesbaidd, hoyw neu'n ddeurywiol. [14]

41. Holodd yr Aelodau a oedd y safonau uchel roedd y Cynulliad yn eu cynnal fel cyflogwr yn cael eu hefelychu gan gontractwyr. Nid oedd y panel yn gallu ateb yn bendant ar unwaith, ond cytunwyd i gynhyrchu nodyn i'r pwyllgor.

42. Mae'r nodyn ysgrifenedig yn cadarnhau bod yr holl gwmnïau sy'n cael gwahoddiad i dendro am gytndebau yn gorfod llenwi adran ar gyfle cyfartal,

---

[11] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para 33
[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14, t14.
[13] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012 Para 163
[14] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14, t9.

a bod pob cytundeb yn cynnwys cymal pum pwynt yn ymwneud â chydraddoldeb.

43. Mae'r nodyn hefyd yn dweud bod yr holl staff arlwyo a glanhau sydd â chytundeb yn cael tâl o £7.12 yr awr o leiaf ers dechrau mis Hydref.

44. Er nad oes dim byd penodol yn mynnu bod staff yn ymuno ag undeb llafur, mae'r cytundeb presennol yn cyfeirio at undebau. Mae'r nodyn yn nodi: "We do not at present promote the recognition of trade unions through our contracts though our terms and conditions include the provision that tenderers must not 'discriminate against anyone, or treat anyone unfairly, on the grounds of…[amongst other things] trade union membership'."[15]

45. Dywedodd Angela Burns: "I believe that it is being monitored and it does happen, but what has not happened is that it is not high enough up the organisational thought process.

"However I will suggest to my fellow Commissioners that, when we have our Commission meetings, we could ensure that we have a regular slot to ask questions of management. As you have said, it is not good enough for it just to be in the Commission, it is about making sure that our suppliers are also playing the game as we would like to see them do it."

46. Rydym yn gwerthfawrogi uchelgais y Cynulliad i fod yn gyflogwr i'w efelychu ac rydym yn croesawu'r ffaith bod y Comisiwynu wedi addo monitro arferion cyflogaeth ein contractwyr a'n cyflenwyr yn fwy gofalus.

---

[15]Nodyn at y pwyllgor (Saesneg yn unig) http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s10890/Letter%20to%20Action%20Point%20-%20Chair%20from%20Assembly%20Commissioner.pdf

**Atodiad 2**

## Craffu ar Gyllideb y Comisiwn: Ffeithiau allweddol a chwestiynau ac atebion am y cefndir

**<u>Ffeithiau allweddol</u>**

Cyfanswm y gyllideb: £49.5m

Cynnydd o £2.5m neu 5.3% o'i gymharu â'r llynedd.

0.3% o'r £15biliwn ym Mloc Cymru, yn unol â'r blynyddoedd blaenorol.

Dadansoddiad:

- £13.7m ar gyfer cyllideb Penderfyniad y Bwrdd Taliadau ynghylch cyflogau Aelodau'r Cynulliad, eu staff cymorth a'r gost o redeg eu swyddfeydd etholaethol/rhanbarthol. Mae cyflogau'r Aelodau wedi'u rhewi ar lefel eu cyflog yn 201, a hynny tan 2015 o leiaf;

- £16.3m i dalu costau cyflogi staff y Comisiwn;

- £19.5m i dalu am fuddsoddiadau a chostau rhedeg y Senedd, ystâd y Cynulliad, TGCh a chyflenwyr a gwasanaethau eraill.

Ffeithiau o Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-14

### Beth yw'r Pwyllgor Cyllid?

1. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwyllgor trawsbleidiol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys Aelodau o'r pedair plaid wleidyddol a gaiff eu cynrychioli yn y Cynulliad.

2. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adrodd ar gynigion a gaiff eu gosod gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru yn ymwneud â'r defnydd o adnoddau. Hefyd gall y Pwyllgor ystyried ac adrodd ar unrhyw fater arall yn ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru neu sy'n effeithio ar hynny.

**Beth yw Comisiwn y Cynulliad?**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Yn ei ddogfen cyllideb, mae Comisiwn y Cynulliad yn disgrifio'i hun. "Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i feithrin sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru."[16]

**Beth yw cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad?**

3. Dywed Rheol Sefydlog 20.13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

> "Heb fod yn hwyrach na 1 Hydref ym mhob blwyddyn ariannol, rhaid i un o aelodau'r Comisiwn osod gerbron y Cynulliad gyllideb ddrafft ar gyfer y Comisiwn sy'n nodi'r symiau o adnoddau ac arian parod y mae'r Comisiwn yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol neu ar gyfer unrhyw gyfnod arall y mae'r Comisiwn wedi cytuno arno gyda Gweinidogion Cymru."[17]

4. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am adrodd ar y gyllideb ddrafft hon.

**Pam craffu ar y gyllideb ddrafft?**

Mae Comisiwn y Cynulliad yn derbyn arian cyhoeddus, ac, o'r herwydd, mae'n bwysig ei fod yn sicrhau'r gwerth gorau am arian ag sy'n bosibl. Mae craffu'n drwyadl ar gynigion cyllidebol y Comisiwn yn arf bwysig yn y gwaith o sicrhau'r gwerth gorau hwnnw.

Fel y nodir uchod, Comisiwn y Cynulliad sydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau seneddol o'r radd flaenaf. Felly, mae ganddo rôl bwysig yn y gwaith o sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif yn ddemocrataidd.

Yn dilyn ein hadroddiad, mae Rheol Sefydlog 20.16 yn nodi:

> 47. "Rhaid i un o aelodau'r Comisiwn gyflwyno cynnig y dylid cytuno ar y gyllideb a osodir o dan Reol Sefydlog 20.15 a'i

[16] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2013-2014, tudalen (p) 3.

[17] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.13

hymgorfforі yn y cynnig cyllideb blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26(ii)."[18]

Yna, bydd cynnig cyllideb derfynol (y cynnig cyllideb blynyddol), yn unol â gofynion Adran 125 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn pennu bod yn rhaid cael o leiaf un cynnig cyllidebol (y cynnig cyllideb blynyddol) ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Mae Rheol Sefydlog 20.29 yn nodi na ellir cyflwyno gwelliannau i'r cynnig cyllideb blynyddol.

**Sut aethom ati i graffu ar y gyllideb ddrafft?**

Ystyriwyd cyllideb ddrafft Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013-14 yn ein cyfarfod ar 3 Hydref 2012.

Yn y cyfarfod hwn, cawsom dystiolaeth gan:

Angela Burns AC, Comisiynydd y Cynulliad dros y gyllideb a llywodraethu

Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad

Steve O' Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad

Wedi'r cyfarfod, ar 3 Hydref 2012, rhoddodd y tystion dystiolaeth ysgrifenedig bellach i'r Pwyllgor ynghylch nifer o faterion a godwyd yn ein cyfarfod.

**Sut y gallaf gael hyd i ragor o wybodaeth?**

Mae holl bapurau cefndir y pwyllgor, trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth a chopïau o'r ohebiaeth ychwanegol a gafodd y pwyllgor i'w gweld ar wefan y Pwyllgor Cyllid. http://www.senedd.assemblywales.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229

---

[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Rheol Sefydlog 20.16